LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBOL IFANC

LLWYDDO'N LLEOL 2050

ENW: Sian Moore

LLEOLIAD: Llangefni, Ynys Môn

Y SWYDD: Always Aim High – Trefnu digwyddiadau

PAM ES TI AT LLWYDDO'N LLEOL?

Yn dilyn astudio ym mhrifysgol Loughborough, roeddwn i'n chwilio am swydd yn y maes chwaraeon, ond methu ffeindio llawer o gyfleoedd yn lleol.

Doeddwn i ddim yn gwybod am gefnogaeth Llwyddo'n Lleol yn iawn tan i mi gael y swydd, a tan i bawb fy nghyflwyno i'r syniad a'r hyn sy'n bosib. Mae'r swydd wedi galluogi i mi ddod adref, gweithio a defnyddio fy ngradd.

BETH FUES TI'N EI WNEUD?

Mi wnes i ddechrau'r swydd yn mis Ebrill. Mae Always Aim High yn trefnu digwyddiadau chwaraeon, a rydan ni'n gwneud rasys rhedeg, nofio, beicio, triathlons ac ati. Dwi'n rhan o'r tîm logistics – yn paratoi digwyddiadau, gwneud yn siŵr bod y masnachwyr i gyd yna a sicrhau bod gwobrau i gyd i mewn ac yn gywir.

Dwi'n teimlo yn fy ardal i fod 'na brinder mawr o swyddi yn y maes chwaraeon yn gyffredinol. O'r cyfle yma, dwi wedi gallu gweithio adra, defnyddio fy ngradd a heb orfod symud i ffwrdd i wneud hyn.

BE YDY DY HOFF BETH AM DY SWYDD?

Dwi wedi dysgu gymaint o'r swydd, rhan fawr ohono fo i fi'n bersonol ydi jyst bod mewn sefyllfaoedd heriol a gwahanol a rŵan efo'r hyder i allu delio a datrys problemau sy'n codi. Yn y swydd dwi wedi gorfod dod o hyd i'r hyder i *goelio* ynof i fy hun ac i fod yn barod i ofyn am gymorth os dydw i ddim yn gwybod beth i wneud.

SUT MAE HYN WEDI SIAPIO DY YRFA?

Yn ogystal â magu hyder, mae'r swydd yma wedi dod a lot fawr o gyfleoedd na fyddwn i wedi eu cael heb fod yn rhan o gynllun Llwyddo'n Lleol. Dwi 'di cael y fraint o fod yn gyfarwyddwr ar ras 10k Nick Beer yn mis Chwefror, ac mae hynny'n gam mawr ymlaen i fi.

Mae'r gefnogaeth drwy Llwyddo'n Lleol wedi mynd tuag at fy natblygiad i o fewn y swydd ac wedi fy ngalluogi i fynd ar gyrsiau ychwanegol i ddysgu mwy am y maes, yn ogystal â chael adnoddau defnyddiol fel cyfrifiadur newydd i fy helpu. Mae hyn wedi bod yn help mawr i mi, ac mae gallu gwneud hyn i gyd yn fy ardal leol yn fonws arbennig!

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government